

❖ DYNA'R FREUDDWYD RYFEDDAF

*Joseff***Darllen: Mathew 1:18–25****Myfyrdod**

Dyna'r freuddwyd ryfeddaf,
 chwerthinllyd mewn gwirionedd,
 ac eto ni allaf ei hanghofio.
 Breuddwydiais fod Duw yn siarad â mi.
 Nid wyneb yn wyneb,
 ond drwy ei angel,
 yn honni bod yn negesydd i Dduw.
 A wyddoch chi beth ddywedodd yr angel?
 Cymer Mair yn wraig i ti!
 A minnau wedi penderfynu'n dawel fach
 i'w rhoi o'r neilltu,
 a cheisio osgoi'r gwarth, gorau gallwn,
 dyma'r creadur hwn yn fy annog i ailfeddwl.
 Pam?
 Oherwydd 'mae'n debyg' doedd gan y busnes
 ddim byd i'w wneud â hi;
 roedd y baban wedi ei feichiogi drwy'r Ysbryd Glân,
 wedi ei ordeinio gan Dduw.
 Wel, mi glywais ambell esgus yn ei dro
 ond hwn yw'r gorau eto!
 Wedi'r cyfan, pwy oedd y creadur hwn yn meddwl oeddwn i?
 Roedd y peth yn chwerthinllyd,
 ac fel arfer byddwn wedi anghofio'r peth yn y fan a'r lle.
 Ond nid y tro hwn –
 nid y pryd hwnnw ac ni allaf yn awr.
 Breuddwyd ydoedd efallai,
 ond mae'n fyw ynof hyd heddiw.
 Pam? – mae nifer o resymau, mae'n siŵr.
 Dyna i chi Mair i ddechrau,
 y modd yr edrychodd arnaf wrth iddi ddweud y newydd –
 mor ddiniwed,
 yn union fel petai wedi cyfarfod â Duw ei hunan
 ac yn gwbl hyderus y byddwn i'n deall.
 Yna roedd Elisabeth a Sechareia –
 Duw a wŷr beth ddigwyddodd iddynt hwy,
 ond yr oeddent wedi gwirioni,
 dim arlliw o amheuaeth,
 heb sôn am warth o'u rhan nhw.
 Ond yr hyn wnaeth y gwahaniaeth i mi yn fwy na dim
 oedd yr ymdeimlad fod Duw wedi fy nghyffwrdd,
 a'm bywyd wedi newid am byth.
 Onid oeddwn yn iawn yn hynny o beth? –
 oherwydd wrth i mi siarad
 rydym ar ein ffordd i Fethlehem,
 a'm gwraig yn gwingo mewn poen,
 ac yn gweddïo am ben y daith.
 A wnes i'n iawn, tybed?

A wnes i'n iawn i sefyll gyda hi?
Rwy'n cael fy amheuon o hyd,
oherwydd mae'n anodd cynefino â phlentyn
nad oedd gen i ddim byd i'w wneud ag ef.
Ond, ar waetha'r cwestiynau, rwyf wedi gwneud fy rhan:
cymerais hi yn wraig.
Ond tro Duw yw hi'n awr.
Ai breuddwyd ydoedd, ffrwyth fy nychymyg?
Cawn weld yn ddigon buan!

Gweddi

O! Dduw grasol,
y mae dy weithredoedd mor annisgwyl,
mae'n anodd dy ddeall weithiau pan fyddi'n siarad â ni.
Fe ddeui atom mewn ffyrdd ac mewn lleoedd cwbl annisgwyl,
ac yn aml methwn dy adnabod pan fyddi'n sefyll yn ein plith.
Dysg i ni fod yn effro i'th bresenoldeb,
a helpa ni i ymateb pan fyddi'n galw,
er na wyddom i ble mae'r ffordd yn arwain.
Galluoga ni i gerdded mewn ffydd,
drwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Nick Fawcett, cyf. Olaf Davies